

Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Galwedigaeth bresennol

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi defnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. O ganlyniad, ni fydd ffigurau a grëir drwy grynhoi daearyddiaethau lefel is yn cyfateb i ffigurau a ryddhawyd ar gyfer daearyddiaethau uwch. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymhell cydgrynhoi daearyddiaethau lefel is i greu daearyddiaethau uwch.

Galwedigaeth Bresennol	Sir Gaerfyrddin				Cymru				Cymru a Lloegr			
	2011		2021		2011		2021		2011		2021	
Yr holl breswylwyr arferol rhwng 16 a 74 oed a oedd mewn gwaith yr wythnos cyn y Cyfrifiad	80,680		81,853		1,363,615		1,368,451		26,526,336		27,773,667	
1. Rheolwyr, cyfarwyddwyr, ac uwch-swyddogion	7,355	9.1%	8,341	10.2%	125,802	9.2%	143,938	10.5%	2,860,702	10.8%	3,547,854	12.8%
2. Galwedigaethau proffesiynol	12,203	15.1%	13,868	16.9%	215,384	15.8%	249,466	18.2%	4,615,759	17.4%	5,606,115	20.2%
3. Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiedig	7,841	9.7%	8,829	10.8%	147,246	10.8%	161,273	11.8%	3,366,313	12.7%	3,661,022	13.2%
4. Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol	8,446	10.5%	7,241	8.8%	151,407	11.1%	128,116	9.4%	3,034,637	11.4%	2,574,681	9.3%
5. Galwedigaethau crefftau medrus	13,189	16.4%	12,162	14.8%	183,277	13.4%	166,613	12.2%	3,041,957	11.5%	2,849,754	10.3%
6. Galwedigaethau gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill	8,965	11.1%	10,086	12.3%	143,467	10.5%	153,029	11.2%	2,492,117	9.4%	2,600,177	9.4%
7. Galwedigaethau gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid	7,026	8.7%	6,822	8.3%	123,392	9.0%	114,559	8.4%	2,240,869	8.4%	2,087,112	7.5%
8. Gweithredwyr prosesau, peirianwaith a pheiriannau	6,552	8.1%	6,435	7.9%	110,993	8.1%	107,475	7.9%	1,919,017	7.2%	1,940,141	7.0%
9. Galwedigaethau elfennol	9,103	11.3%	8,169	10%	162,647	11.9%	143,982	10.5%	2,954,965	11.1%	2,906,811	10.5%

Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Galwedigaeth bresennol

Dadansoddiad:

- Yn Sir Gaerfyrddin, y categori galwedigaeth uchaf yw 'galwedigaethau proffesiynol' gyda 16.9% (13,868), sydd wedi cynyddu 1.8 pwynt canran. Fodd bynnag, mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i ddangos lefelau is na'r cyfartaledd o bobl a gyflogir yn y categori hwn o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol. Mae hyn **hefyd** yn wir am y niferoedd a gyflogir yn y meysydd galwedigaethol 'Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion' a 'proffesiynol a thechnegol cysylltiedig'.
- Y 3ydd categori uchaf yn Sir Gaerfyrddin yw'r 'gofal, hamdden a galwedigaethau gwasanaeth eraill', sy'n uwch na chyfartaledd Cymru lle mae'n 4ydd categori uchaf, a Chymru a Lloegr lle mae'n 6ed categori uchaf.
- Yng Nghymru, y trydydd categori uchaf yw 'Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiedig', ac yng Nghymru a Lloegr y categori 'Rheolwyr, cyfarwyddwyr, ac uwch swyddogion'.

Diffiniad:

Cyflogedig (mewn gwaith):

Nodir bod unigolyn rhwng 16 a 74 oed yn gyflogedig (neu mewn gwaith) os gwnaeth o leiaf awr o waith â thâl yn yr wythnos cyn y cyfrifiad, naill ai fel gweithiwr cyflogedig neu'n hunangyflogedig. Mae hyn yn cynnwys gwaith achlysurol neu dros dro, ar gynllun hyfforddi a noddir gan y llywodraeth, gwneud gwaith am dâl neu'n ddi-dâl ar gyfer eu busnes eu hunain neu eu busnes teuluol, bod i ffwrdd o'r gwaith yn sâl, ar absenoldeb mamolaeth, neu ar wyliau neu wedi'u diswyddo dros dro.

Prif Swydd:

'Prif swydd' unigolyn rhwng 16 a 74 oed yw'r swydd y mae'n gweithio'r oriau mwyaf ynddi fel arfer. I bobl nad oeddent yn gweithio ar adeg y cyfrifiad mae'r brif swydd yn cyfeirio at swydd ddiwethaf unigolyn. Mae'r pynciau sy'n seiliedig ar gyflogaeth i gyd yn ymwneud â phrif swydd unigolyn.

Galwedigaeth:

Mae galwedigaeth unigolyn yn cyfeirio at ei brif swydd ac mae'n deillio naill ai o deitl ei swydd neu o fanylion y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'i swydd. Defnyddir hwn i neilltuo ymatebion i gôd galwedigaethau'n seiliedig ar Ddosbarthiad Galwedigaethol Safonol 2010 (SOC2010)